

NEWYDDION TEULU A CHYHOEDDIADAU

CYDYMDEIMLAD

Rydym yn cydymdeimlo gyda Siân ac Emlyn Penny Jones ar eu profedigaeth. Bu farw Mrs Olga Davies, mam Siân, yn yr ysbyty yn Llanelli ddydd Sul diwethaf, yn 93 oed. Rydym yn meddwl am y teulu i gyd.

Y SULIAU NESAF yn Neuadd y Pentref Tachwedd 1:

Y Parchg. Allan R. Pickard
Llywydd: Margaret P. Copley
Taflen: Nia Williams

Tachwedd 8:

Y Parchg. Aled Edwards
Llywydd: Bethan Herbert
Taflen: Emlyn Davies

Tachwedd 15:

Emlyn Davies
Llywydd: Ann Davies
Taflen: Emlyn Davies

Tachwedd 22:

Allan James
Llywydd: Carwyn Lloyd-Jones
Taflen: Gwilym Huws

CASGLIAD BWYD A DILLAD

Bydd y casgliadau bwyd ar gyfer Banc Bwyd Pontyclun yn parhau tra bo'r capel yn cael ei atgyweirio a bydd y bocs casglu yng nghefn Neuadd y Pentref bob bore Sul (ac yma heddiw.) Bydd y casgliad dillad yn ail-ddechrau yn y flwyddyn newydd.

MERCHED Y TABERNAACL

Bore Gwener, Tachwedd 13eg

Cwrdd am goffi yn yr Amgueddfa am 10.30 ac yna am 11 byddwn yn cael eglurhad ar rai o'r peintiadau yng nghwmni Ann Saer

Croeso i bawb

CYFARFOD CYFFREDINOL

Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol fore Sul, Tachwedd 22ain, yn dilyn yr oedfa.

ENWEBU CYFARWYDDWYR

Daeth yn amser unwaith eto i enwebu aelodau newydd i Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Y dyddiad cau yw dydd Sul, Tachwedd 8fed, ac mae'r ffurflenni ar gael gan Gwilym Huws, yr Ysgrifennydd.

ELUSENNAU 2016

Pwy ddylai dderbyn ein harian elusen yn 2016? Dewch â'ch syniadau i [John, johnllewt@hotmail.com](mailto:johnllewt@hotmail.com) 01443 218077 neu [Ann, ann.pentyrch@btinternet.com](mailto:ann.pentyrch@btinternet.com) erbyn wythnos i heddiw fan bellaf.

TAFOD Y TAB

Y DAFLEN, A'R SGRINIAU

Gyda llawenydd mawr yr ydym yn cyhoeddi fod Gwerfyl Morse wedi cytuno i olygu rhifyn mis Ionawr o *Tafod y Tab*. Byddwn yn apelio am ddeunydd ar ei chyfer yn nes at ddiwedd y flwyddyn.

Ond rydym yn dal i chwilio am ragor o bobl i helpu gyda'r daflen a'r sgriniau yn y flwyddyn newydd. Os medrwch helpu, mynnwch air gydag Emlyn Davies ar 02920 891344 neu emlyn.davies@which.net

Y FFOADURIAID

Dydd Sul nesaf, Tachwedd 1af, fydd y cyfle olaf i ddychwelyd amlenni casgliad Cymorth Cristnogol i helpu ffoaduriaid yn Ewrop ac Asia. Diolch i chi i gyd am eich ymateb a'ch cefnogaeth.

CAPEL Y TABERNAACL

Efail Isaf

Hydref 25ain, 2015

Croeso!

Croeso!

Llywydd

Myfyrdod

Cyfeilydd

Wyn Rees

Y Parchg. Gethin Rhys

Geraint Rees

TREFN YR OEDFA

Galwad i Addoli

Emyn: 805: "Rho imi nerth i wneud fy rhan,"

Cyd-ddarllen Luc 18: 9-14 allan o Beibl.net

Gweddi

Cyd-adrodd Gweddi'r Arglwydd

Gair i'r Plant gan y Parchg. Gethin Rhys

Emyn: 58 "Jubilate," (Casgliad)

Y plant i'r ystafell uchaf

Emyn 849: "Deui atom yn ein gwendid,"

Myfyrdod: Y Parchg. Gethin Rhys

Emyn: 205 "Dyma gariad fel y moroedd"

Y Fendith

Emyn 49: (Un pennill yn unig)

Diolch i ti, yr hollalluog Dduw,

am yr Efengyl sanctaidd.

Halelwia! Amen

Emyn 1: 805

Rho imi nerth i wneud fy rhan,
i gario baich fy mrawd,
i weini'n dirion ar y gwan
a chynorthwyo'r tlawd.

Ehanga 'mryd a gwared fi
rhag culni o bob rhyw,
rho imi weld pob mab i ti
yn frawd i mi, O Dduw.

Gad imi weld dy wyneb-pryd
yng ngwedd y llesg a'r gwael,
a gwrando'r cwyn nas clyw y byd
er mwyn dy gariad hael.

E. A. DINGLEY, 1860-1948
cyf. NANTLAIS, 1874-1959

Emyn 2 (Emyn y Plant): 58

Jubilate, jubilate,
canu cân o foliant wnawn i'r Arglwydd,
jubilate, jubilate,
gwaeddwn gyda'n gilydd, molwn ef;
dewch i mewn i'w byrth â diolch,
i'w gynteddu awn dan ganu,
jubilate, jubilate, jubilate Deo.

SALM 100: 1, 2, 4, 5
addas. FRED DUNN, 1908-79
cyf. NEST IFANS
Hawlfraint © 1977
Kingsway's Thankyou Music,
P.O. Box 75, Eastbourne BN23 6NW
(Defnyddiwyd trwy ganiatâd)

Emyn 3: 849

Deui atom yn ein gwendid
gan ein codi ar ein traed,
drwy dy Ysbryd, drwy dy bobol,
sefyll yr wyt ti o'n plaid.

Deui atom yn ein tralod
gyda chysur yn dy lais,
drwy dy Ysbryd, drwy dy bobol,
parod wyt i wrando'n cais.

Deui atom mewn cymdogion
am it weld ein lludded ni:
ti yw'r Ysbryd, ni dy bobol,
taenu wnawn dy gariad di.

GLEN BAKER
cyf. CYNTHIA SAUNDERS DAVIES

Emyn 4: 205

Dyma gariad fel y moroedd,
tosturiaethau fel y lli:
T'wysog bywyd pur yn marw,
marw i brynu'n bywyd ni.
Pwy all beidio â chofio amdano?
Pwy all beidio â thraethu'i glod?
Dyma gariad nad â'n angof
tra bo nefoedd wen yn bod.

Ar Galfaria yr ymrwygodd
holl ffynhonnau'r dyfnder mawr,
torrodd holl argaeau'r nefoedd
oedd yn gyfan hyd yn awr:
gras a chariad megis dilyw
yn ymduwallt yma 'nghyd,
a chyfiawnder pur a heddwch
yn cusanu euog fyd.

GWILYM HIRAETHOG, 1802-83

Cyd-ddarllen Luc 18: 9-14 allan o Beibl.net

Dwedodd Iesu y stori yma wrth rai pobl oedd yn meddwl eu bod
nhw eu hunain mor dduwiol, ac yn edrych i lawr eu trwynau ar bawb
arall:

¹⁰ "Aeth dau ddyn i weddio yn y deml. Pharisead oedd un ohonyn
nhw, a'r llall yn ddyn oedd yn casglu trethi i Rufain. ¹¹ Dyma'r
Pharisead yn sefyll ar ei draed yn hyderus, a dyma oedd ei weddi:
'O Dduw, dw i yn diolch i ti mod i ddim yr un fath â phobl eraill. Dw
i ddim yn twyllo na gwneud dim byd drwg arall, a dw i ddim yn
gwneud pethau anfoesol. Dw i ddim yr un fath â'r bradwr yma! ¹²
Dw i'n ymryddio ddwywaith yr wythnos ac yn rhoi un rhan o ddeg o
bopeth sydd gen i i'r deml.'

¹³ "Ond roedd y casglwr trethi wedi mynd i sefyll mewn rhyw gornel
ar ei ben ei hun. Doedd e ddim yn meiddio edrych i fyny hyd yn
oed. Yn lle hynny roedd yn curo ei frest mewn cywilydd. Dyma oedd
ei weddi e: 'O Dduw, wnei di faddau i mi. Dw i'n bechadur ofnadwy.'

¹⁴ "Dw i'n dweud wrthoch chi mai'r casglwr trethi, dim y Pharisead,
oedd yr un aeth adre a'i berthynas gyda Duw yn iawn. Bydd Duw yn
torri crib pobl falch ac yn anrhydeddu'r rhai gostyngedig."

Y TWMIAID BACH

Cofiwch am y Twmiaid Bach, i blant blwyddyn 5 ac uwch, bob yn ail nos
Sul am 5 o'r gloch yn Y Ganolfan. Bydd y cyfarfodydd nesaf ar
Dachwedd 1, 15 a 29, ac wedyn ar Ragfyr 13.



CYLCH CADWGAN



Nos Fercher 18 Tachwedd
8.00pm. yn Y Ganolfan

Dr WALTER BROOKS

'Patagonia 150'

Eisteddfod yr Urdd

Penybont a Thaf Elái 2017

Dewch â'r car i orsaf dân Pontyclun,
fore Sadwrn Hydref 31, rhwng
9:30 a hanner dydd. Car glân a
chyfle i gwrdd â Mr Urdd.

YR APÊL ARIANNOL AR GYFER YR ADEILADAU

Mae'n bleser cael cyhoeddi bod yr ymateb i'r apêl wedi bod yn ardderchog hyd
yn hyn. Codwyd dros £24,000 ymhlith yr aelodau, a byddwn yn medru hawlio
Cymorth Rhodd ar y rhan fwyaf o'r cyfraniadau hyn. Diolch i bawb am eu
haelioni. Os nad ydych wedi cyfrannu eto, dyw hi ddim yn rhy hwyr!